RHIFYN
ISSUE
22
09.03.20

Llais Llantrisant

DYDD GŴYL DEWI
ST DAVID'S DAY

Môr o goch o'n blaenau i ddathlu diwrnod arbennig Cymru!
A sea of red before us to celebrate Wales' special day!









Cliciwch yma i weld rhagor o luniau
Click here to see more photographs






DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

18.03.20 - Blwyddyn 6 yn ymweld ag Eglwys Bethel
Year 6 visits Bethel Church
18.03.20 - PC Lloyd yn ymweld â Blwyddyn 3 a 4
PC Lloyd visits Year 3 and 4
25.03.20 - Blwyddyn 4 yn ymweld ag Eglwys Bethel
Year 4 visits Bethel Church
25.03.20 - Bl. 5 a 6 yn ymweld â Neuadd Tref Llantrisant
Year 5 and 6 visit Llantrisant Guildhall
27.03.20 - Yr Eisteddfod Sir - Pafiliwn Porthcawl
County Eisteddfod - Porthcawl Pavilion
03.04.20 - Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Pasg
Children break up for the Easter holidays

YMWELIAD XL WALES
XL WALES' VISIT

Diolch yn fawr iawn i Julie o XL WALES am ddod i weithio gyda phlant Blwyddyn 5 a 6 yn ddiweddar. Cymerodd y plant ran mewn nifer o weithdau gwyddoniaeth yn ymwneud â grymoedd yn ystod y dydd.
Many thanks to Julie from XL WALES who came to school to work with Year 5 and 6 pupils recently. The children took part in a number of science workshops during the day learning about forces.





CASGLIAD BWYD RCT
RCT FOOD COLLECTION

Diolch i bawb a anfonodd gyfraniadau hael i'r ysgol ar gyfer casgliad bwyd RCT. Rydym yn falch iawn i allu cefnogi teuluoedd RCT sydd wedi dioddef yn ddiweddar oherwydd y llifogydd ofnadwy.
Many thanks to all those who sent in generous donations towards the RCT food collection. We are proud to be able to support RCT families who have suffered recently due to the horrendous flooding.



Cliciwch ar logo RCT i weld sut allwch chi helpu
Click on the RCT logo to see how you can help

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Criw Cymwynasgar Senedd yr Ysgol
School Parliament's Helping Hands Committee

Y GRhA
THE PTA

Cofiwch brynu'ch tocynnau ar gyfer Dawns Fawreddog mis Mai y GRhA! Cofiwch, hefyd, am y Twmpath i'r Teulu ar Fawrth 21ain . Mae'r holl wybodaeth yma ar wefan yr ysgol.

Remember to buy your tickets for the PTA's Grand May Ball! Also remember the Family Twmpath on March 21st . All the information is here on the school website.



CROESO ATOM
WELCOME

Croeso cynnes i Mr Marczak oedd wedi dechrau gweithio gyda ni ar Chwefror 24ain. Bydd Mr Marczak yn gweithio fel Cynorthwyydd Addysgu gyda phlant CA2 y tymor yma. Gobeithio y bydd yn ymgartrefu ac yn mwynhau gweithio gyda'r plant!

A warm welcome to Mr Marczak who started working with us on February 24th. Mr Marczak will be working as a Teaching Assistant with KS2 pupils. We hope he settles in well and enjoys working with the children!



NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS

Fel y gwyddoch, cynhelir Nosweithiau Agored Tymor y Gwanwyn ar Fawrth 31ain ac Ebrill 1af eleni. Am 7:00 yb ar ddydd Gwener, Mawrth 13eg, byddwch yn derbyn ebost i bennu apwyntiad. Byddwch yn wyliadwrus!

As you will be aware, Spring Term Open Evenings this year are on March 31st and April 1st . At 7:00 am on Friday, March 13th, an email will be sent out to all parents with an invite to make an appointment online through the school's website. Keep an eye open for the email!



YR EISTEDDFOD GYLCH
THE REGIONAL EISTEDDFOD

Ar Fawrth 6ed, teithiodd nifer fawr o blant a staff draw i Ysgol Llanhari i gystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, 2020. Llongyfarchiadau mawr i bob plentyn am gymryd rhan. Bydd y cystadlaethau hyn yn symud ymlaen i'r Eisteddfod Sir ym Mhafiliwn Porthcawl ar Fawrth 27ain :

- **Deuawd Blwyddyn 6 ac iau**
- **Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac iau**
- **Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4**
- **Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau**
- **Côr Blwyddyn 6 ac iau**

On March 6th, a number of pupils and staff travelled to Ysgol Llanhari to compete in the Urdd Regional Eisteddfod, 2020. Congratulations to all the children who competed. The following competitions will now move on to the County Eisteddfod in Porthcawl Pavilion on March 27th:

- *Duet Year 6 and under*
- *Solo Recitation Year 2 and under*
- *Solo Recitaiton Year 3 and 4*
- *One Voice Party Year 6 and under*
- *Choir Year 6 and under*

Cliciwch yma i weld rhagor o luniau
Click here to see more photographs





urdd.org
Urdd Gobaith Cymru







DIWRNOD Y LLYFR 2020
WORLD BOOK DAY 2020

Am ymateb gwych i'n hapêl am lyfrau ar gyfer llyfrgelloedd y dosbarthiadau! Daeth llwyth o lyfrau i mewn! Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r apêl i nodi Diwrnod y Llyfr 2020.

A great response to our appeal for books for the classroom libraries! We received a great amount of books! Many thanks to everyone who supported this appeal to mark World Book Day 2020.



DIWRNOD Y LLYFR WORLD BOOK DAY 5.3.2020



Cliciwch yma i weld rhagor o luniau
Click here to see more photographs

CLWB AML-CHWARAEON YR URDD
THE URDD MULTI-SPORTS CLUB

Diolch i Jack o'r Urdd am gynnal clwb aml-chwaraeon bob nos Lun am gyfnod o 5 wythnos ar gyfer plant Blwyddyn 1 a 2. Llawer o hwyl a sbri!

Many thanks to Jack from the Urdd for holding a multi-sports club for Year 1 and 2 pupils in the school hall each Monday afternoon for a period of 5 weeks. Lots of fun!

Llythyr a manylion cyswllt
Letter and contact details

